

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN

## COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER  
19 Hydref 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL**

<b>YN BRESENNOL:</b>	
Cyng I Roberts, S Parry, G Parry, R G Parry, I Rowlands, K Humphreys, C LI Thomas	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	
Cyng E Huws a D Rees (Cyngor Sir)	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> - Dim
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Medi 2016, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng i Rowlands yn eilio (Un cywiriad - yr oedd Cyng C LI Thomas yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf)
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr</b> - Darllenwyd ebost gan Cadw yn nodi y byddai'n well ganddynt i ni defnyddio llechi Cymraeg. Cytunwyd i symud ymlaen gyda llechi Cymraeg.
<b>4.2</b>	<b>Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones</b> - Mae'r Clerc wedi derbyn llythyr yn cadarnhau bod Watkin Jones yn cynnig grant o £1000.
<b>4.3</b>	<b>Siec cyfrif y maes chwarae</b> - mewn llaw
<b>4.4</b>	<b>Maes chwarae (trin yr offer)</b> - Mae'r gwaith wedi'i orffen yn foddhaol. Bydd y Clerc yn gofyn i Macventure Play symud ymlaen gyda'r rhaff
<b>4.5</b>	<b>Lon Salem</b> - palmant. Y rheswm nad yw y palmant wedi ei gwblhau yw nad yw y S106 (mabwysiadu'r ffordd) wedi ei gwblhau/gytuno hefo'r Cyngor. Mae Cynefin yn disgwyl clywed gan Williams Homes. Mae y Cadeirydd a Cyng R G Parry am ail edrych ar yr arwyddion ar y croesffordd
<b>4.6</b>	<b>Hysbysffwrdd Newydd</b> - Mae Mr Ian Lloyd am gosod yr hysbysffwrdd newydd
<b>4.7</b>	<b>Gan Bwyll</b> - Darllenwyd ebost gan Gan Bwyll yn gofyn yn lle mae'r problemau ac amseroedd. Bydd y Clerc yn ymateb: bore dydd Sadwrn yn y Stryd Fawr ac amseroedd ysgol.
<b>5</b>	<b>ADRODDIAD y CADEIRYDD</b> Dywedodd y Cadeirydd bydd Gwasanaeth Sul y Cofio yn mynd ymlaen fel arfer. Mae'r Clerc wedi trefnu i'r Heddlu bod yn bresennol a cynrychiolydd o'r RAF
<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <span style="float: right;"><b>23.11.16</b></span>	
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON</b>
<b>Cynllunio</b>	

<b>6.1</b>	16C52B Dileu cytundeb 106 (cadw'r annedd a'r annedd newydd fel un uned cynllunio) o ganiatad cynllunio rhif 16C52A yn Gongl Helyg, Capel Gwyn - dim sylwadau
<b>6.2</b>	16C10D/LUC/ENF Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol a garafan statig i defnydd preswyl yn Cae Dafydd Bungalow, Bryngwran - penderfyniwyd gwrthwynebu oherwydd gorddatblygu. Hefyd mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus a oes caniatad ar gyfer y datblygiadau eraill?
	<b>Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Mon</b>
<b>6.3</b>	Grantiau Cyfalaf - Llythyr yn cadarnhau bod y cais am grant wedi cael ei wrthod
	<b>Eiddo</b>
<b>6.4</b>	Prydles y Cae Chwarae - Llythyr yn dweud bod rhent y maes chwarae wedi codi i £80.24 o 01.06.16.
<b>7</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>7.1</b>	Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru Cynigion Cychwynnol - gwybodaeth yn unig
<b>7.2</b>	Yr Heddlu (Sul y Cofio) - llythyr yn cadarnhau bydd yr Heddlu yn bresennol
<b>7.3</b>	RAF (Sul y Cofio) - llythyr yn cadarnhau bydd yr RAF yn bresennol
<b>7.4</b>	Watkin Jones - gweler 4.3
<b>7.5</b>	Cadw - gweler 4.1
<b>7.6</b>	Cynefin (Lon Salem) - gweler 4.6
<b>7.7</b>	Cymunedau yn Gyntaf - llythyr yn cadarnhau bod y gwaith wedi'i orffen
<b>7.8</b>	Gan Bwyll - gweler 4.8
<b>7.9</b>	Brian Jones - llythyr gan Mr Brian Jones, Cynefin, Bryngwran yn ymddiheuro am gosod "fixtures" ar y ffens
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	HSBC/Zurich Municipal. Dywedodd y Clerc bod siec taladwy i Zurich Municipal am £514.02 wedi dod yn ôl "Refer to drawer" er bod y Clerc wedi rhoi caniatad i HSBC trosglwyddo £1000 o un cyfrif i'r llall. Yn dilyn sgwrs gyda'r banc mae costau y banc (£15) wedi'i talu yn ôl i cyfrif y Cyngor a mae'r £1000 yn awr wedi cael ei trosglwyddo. Mae'r Clerc wedi talu cost yr Yswiriant allan o'i arian ei hun er mwyn osgoi y polisi cael ei ganslio. Cytunwyd i'r Clerc cael yr hawl i gwneud "online banking" - trosglwyddo pres yn unig - dim taliadau.
<b>8.2</b>	Mynwent Llanbeulan - trafodwyd cwynion am cyflwr y fynwent. Bydd y Clerc yn gofyn i'r contractwr cadarnhau bod y gwair wedi cael ei dorri ar ôl pob toriad
<b>8.3</b>	Hysbysffwrdd - gweler 4.7
<b>8.4</b>	Lon y fynwent - trafodwyn cwyn am cyflwr ochrau Lôn y Fynwent (chwyn a dail). Cynigodd y Cadeirydd a Cyng K Humphreys cael prisiau am gwneud y gwaith.
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <b>23.11.16</b>
<b>8.5</b>	Sul y Cofio - gweler 5
<b>8.6</b>	Llechan Eisteddfod Môn - Mae y Cadeirdd wedi cael pris gan Inigo

	Jones am £238 + TAW. Penderfyniwyd i symud ymlaen
<b>9</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
<b>9.1</b>	Cytunwyd i dalu: Yswiriant blynyddol £514.02 (taladwy i'r Clerc - gweler 8.1)
<b>9.2</b>	Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
<b>9.3</b>	Adroddiad yr Archwiliwr Allanol - Derbyniwyd yr adroddiad a sylwadau: Dim llythyr penodi'r archwiliwr mewnol, monitro'r gyllideb heb ei gofnodi, asedau, cofnodion heb ei rhifo
<b>9.4</b>	Cytunwyd i dalu: £20 Torch Sul y Cofio
<b>10</b>	<b>Materion ar gyfer y rhaglen nesaf</b>
	Dim
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <b>23.11.16</b>